**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR (HEOL FELINDRE, PENCOED) (CROESFAN SEBRA WEDI'I CHODI I GERDDWYR) 2026**

**HYSBYSIR DRWY HYN** fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fel yr Awdurdod Priffyrdd ar gyfer Pencoed drwy arfer eu pwerau o dan Adrannau 90(A), (C), (D), (E) ac (F) Deddf Priffyrdd 1980 ac Adran 23 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, Rheoliadau Priffyrdd (Twmpathau Ffyrdd) 1999 a phob pŵer galluogi arall ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu, yn cynnig sefydlu croesfan sebra wedi'i chodi a reolir i gerddwyr yn unol â'r hyn a nodir yn yr atodlen isod.

Rhaid anfon sylwadau neu wrthwynebiadau i'r cynnig, ynghyd â'r sail dros wneud hynny, yn ysgrifenedig at y llofnodwr isod yn y cyfeiriad isod, neu drwy e-bost i traffictransportation@bridgend.gov.uk, erbyn **07/08/2026**.

Mae copi o'r dogfennau a adneuwyd, gan gynnwys y cynlluniau a datganiad o reswm y Cyngor dros gyflwyno'r groesfan, ar gael drwy gysylltu â naill ai traffictransportation@bridgend.gov.uk neu dros y ffôn drwy'r Ganolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid ar 01656 646363 (dyfynnwch y cyfeirnod TRA001-1542) neu maent i'w cael yn rhad ac am ddim yn Llyfrgell Pencoed, Ffordd Pen-y-bont, Pencoed, CF35 5RA yn ystod yr oriau canlynol: Dydd Llun 9.30am - 1pm a 2pm - 6pm, Dydd Mawrth 9.30am -1pm a 2pm -8pm, Dydd Mercher 9.30am -1pm, Dydd Iau 9.30am -1pm a 2pm - 6pm, Dydd Gwener 9.30am -1pm a 2pm -5pm, Dydd Sadwrn 9.30am -1pm a 2pm -5pm neu gellir eu harchwilio ar-lein yn: https://www.penybontarogwr.gov.uk/cyngor/hysbysiadau-cyfreithiol-a-gorchmynion/. /. Yn ychwanegol, gellir gweld copi o'r dogfennau yn rhad ac am ddim yn y Dderbynfa Ddinesig yn y cyfeiriad isod yn ystod oriau swyddfa.

Os ydych yn cael unrhyw anhawster yn ymateb yn ysgrifenedig, neu os oes angen yr hysbysiad mewn fformat arall, er enghraifft, print bras, sain, braille neu ffacs, cysylltwch â'r Adran Gyfreithiol gan ddefnyddio'r cyfeiriad isod neu drwy gysylltu â'r Ganolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid ar 01656 643643, cyfeirnod cyfreithiol TRA001-1542. Sylwch y gall y Cyngor ystyried yr holl sylwadau a dderbynnir yn gyhoeddus ac y gallai sylwedd unrhyw sylw (ynghyd ag enw a chyfeiriad y sawl sy'n ei wneud) fod ar gael i'r cyhoedd ei archwilio.

**ATODLEN**

| **Ffordd** | **Lleoliad Croesfan Sebra wedi'i Chodi i Gerddwyr** |
|---|---|
| Heol Felindre, Pencoed | Heol Felindre, oddeutu 374 metr (409 llath) i'r gorllewin o'r gyffordd â'r A473 am oddeutu 8.25 metr (9 llath) (gan gynnwys rampiau dynesu 1.125 metr, 75mm o uchder). |

**Dyddiedig: 09/07/2026**

K Watson, Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheoliadol ac Etholiadol – Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB.

K Watson, Chief Officer - Legal, Regulatory and Electoral Services – Chief Executive's Directorate, Bridgend County Borough Council, Civic Offices, Angel Street, Bridgend CF31 4WB.